Rhif: WG31583

Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymgynghori

Ymgynghoriad ar gam 2 y broses o roi Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ar waith

Dyddiad cyhoeddi: **2 Mai 2017**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **25 Gorffennaf 2017**

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn am gam 2 y broses o weithredu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, gan gynnwys rheoliadau a wneir i gefnogi darparwyr gwasanaeth i ddarparu gofynion y Ddeddf. |
| **Sut i ymateb** | Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy gwblhau a dychwelyd, erbyn canol nos ar y dyddiad cau, ffurflen ymateb yr ymgynghoriad yng nghefn y ddogfen hon. Dylid anfon yr ymateb at:<br><br>Y Gangen Gweithredu Deddfwriaeth<br>Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Llywodraeth Cymru<br>Adeiladau'r Goron<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>Neu mae ffurflen ymateb yr ymgynghoriad ar gael ar ein gwefan yn (https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/) a gallwch ei dychwelyd atom erbyn canol nos ar y dyddiad cau, drwy e-bostio'r ffurflen at: RISCACT2016@wales.gsi.gov.uk |
| **Gwybodaeth bellach a dogfennau cysylltiedig** | **Mae'r ddogfen hon ar gael mewn MS Word, print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill drwy wneud cais.**<br><br>*Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith ar gyfer Gweithredu:*<br>http://gov.wales/topics/health/publications/socialcare/guidance1/services/?skip=1&lang=cy<br><br>Adroddiad y Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol:<br>http://gov.wales/docs/dhss/publications/101207visioncy.pdf<br><br>Adolygiad Comisiwn y Gyfraith ar Ddeddfwriaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion:<br>http://www.lawcom.gov.uk/project/regulation-of-health-and-social-care-professionals/<br><br>Adroddiad Bwrdd y Prosiect Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed:<br>http://gov.wales/topics/health/publications/socialcare/reports/report/?skip=1&lang=cy<br><br>Datganiad Llesiant ar gyfer Pobl Sydd Angen Gofal a Chymorth a Gofalwyr Sydd Angen Cymorth:<br>http://gov.wales/topics/health/publications/socialcare/strategies/statement/?skip=1&lang=cy |

| | |
|---|---|
| **Manylion cyswllt** | Am fwy o wybodaeth:<br><br>Cyfeiriad: Y Gangen Gweithredu Deddfwriaeth<br>Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio<br>Adeiladau'r Goron<br>Parc Cathays<br>CAERDYDD<br>CF10 3NQ<br><br>e-bost: RISCACT2016@wales.gsi.gov.uk<br><br>rhif ffôn: 0300 0604400 |
| **Diogelu data** | Sut y defnyddir y farn a'r wybodaeth a rowch i ni<br><br>Bydd unrhyw ymateb y byddwch yn ei anfon atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n delio â'r materion a drafodir yn yr ymgynghoriad hwn. Efallai y bydd staff eraill yn Llywodraeth Cymru hefyd yn ei weld i'w helpu i drefnu ymarferion ymgynghori yn y dyfodol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Efallai y byddwn hefyd yn cyhoeddi'r ymatebion llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) y person neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hyn yn helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gyflawni'n gywir. Os byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi eich enw neu gyfeiriad, dylech nodi hynny'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb atom. Byddwn yna'n dileu'r manylion hynny.<br><br>Gallai enwau neu gyfeiriadau a ddilëir dal gael eu cyhoeddi nes ymlaen, er nad ydym yn meddwl y byddai hyn yn digwydd yn aml. O dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, gall y cyhoedd ofyn am gael gweld gwybodaeth sy'n cael ei dal gan nifer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth nad yw wedi'i chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn gadael i ni atal y wybodaeth yma mewn rhai amgylchiadau. Os oes unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth sydd wedi'i hatal gennym, bydd angen i ni benderfynu a ddylem ei rhyddhau neu beidio. Os oes unrhyw un wedi gofyn i ni beidio â chyhoeddi eu henw neu gyfeiriad, mae hyn yn ffaith bwysig y byddem yn ei hystyried. Fodd bynnag, gallai fod rhesymau pwysig weithiau dros orfod datgelu enw a chyfeiriad rhywun, er eu bod wedi gofyn i ni beidio eu cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r person dan sylw ac yn gofyn am eu barn cyn penderfynu'n derfynol a fyddem yn rhyddhau'r wybodaeth. |

**Y Rhagair**

Yn 2011 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r papur gwyn *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith ar gyfer Gweithredu.* Roedd hwn yn cyflwyno cynllun uchelgeisiol i greu dull integredig a pherson-ganolog newydd o ddarparu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

I weithredu'r dull newydd hwn, yn nhymor diwethaf y Cynulliad lluniwyd dau ddarn o ddeddfwriaeth sylfaenol: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

Mae Deddf 2016 yn sefydlu system newydd o reoleiddio ac arolygu i gynnal hawliau dinasyddion Cymru i dderbyn gofal diogel, priodol gydag urddas.

Er mwyn cyflawni hyn rydym yn rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol yn well gan helpu pobl sy'n gweithio ym maes gofal i ddatblygu eu sgiliau a darparu'r gofal gorau posib. Mae hyn bellach yn cael ei oruchwylio gan Gofal Cymdeithasol Cymru sydd wedi olynu Cyngor Gofal Cymru ac sydd â phwerau a chyfrifoldebau ychwanegol. Mae'r ddeddfwriaeth yn creu cofrestr o weithwyr gofal cymdeithasol wedi'i rheoli gan Gofal Cymdeithasol Cymru; drwy'r gofrestr gallwn adnabod pobl a allai gamddefnyddio'r ymddiriedaeth a'r pŵer sydd ynghlwm â rôl mor bwysig a'u hatal rhag gweithio ym maes gofal cymdeithasol.

Rydym hefyd yn diweddaru'r system o arolygu a rheoleiddio darparwyr gofal. Bydd y gyfundrefn newydd o reoleiddio ac arolygu'n gryfach ac yn ei gwneud yn haws i Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), fel y rheoleiddiwr gwasanaeth, oruchwylio'r gwasanaeth cyfan y mae sefydliad yn ei ddarparu. Bydd hefyd yn ei gwneud yn haws i ddarparwyr gwasanaeth gofrestru ac i ddinasyddion gael mynediad at wybodaeth amdanynt.

Mae Deddf 2016 yn creu'r dull cyffredinol o weithredu'r gyfundrefn reoleiddio ac arolygu newydd; bwriedir cyflwyno manylion y system, gan gynnwys rheoliadau, cod ymarfer a chanllawiau statudol, mewn is-ddeddfwriaeth. Mae'r is-ddeddfwriaeth yn cael ei datblygu dros dri cham. Ymgynghorwyd ar y cam cyntaf yn ystod haf 2016 cyn gweithredu elfennau'n ymwneud â rheoleiddio'r gweithlu ym mis Ebrill eleni. Mae'r ymgynghoriad hwn yn trafod rheoliadau'r ail gam. Byddwn yn ymgynghori ar y trydydd cam y flwyddyn nesaf.

Mae gofal cymdeithasol yn cyffwrdd â bywydau pawb yng Nghymru. Efallai eisoes neu rywbryd yn y dyfodol, bydd angen i chi neu rywun agos atoch ddefnyddio gwasanaethau rheoledig i dderbyn gofal a chymorth. Dyna pam ei bod mor bwysig cael y system o reoleiddio ac arolygu'n iawn a pham ei bod yn hanfodol i ni gael eich barn am ein cynigion. Hoffwn ddiolch i chi am roi amser i ddarllen y ddogfen ymgynghori hon ac edrychaf ymlaen at glywed eich barn.

**Rebecca Evans AC**
**Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

## Cefndir

Pasiwyd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 24 Tachwedd 2015 gan dderbyn Cydsyniad Brenhinol ar 18 Ionawr 2016. Mae'n diwygio'r gyfundrefn o reoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae Deddf 2016 yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol a'r gweithlu gofal cymdeithasol. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno sawl eitem o is-ddeddfwriaeth drwy wneud rheoliadau, cyhoeddi canllawiau a chyflwyno codau ymarfer.

## Y dystiolaeth dros newid a'r egwyddorion allweddol

Mae cyrff rheoleiddio yng Nghymru, yn bennaf Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ("AGGCC") a Chyngor Gofal Cymru, a hefyd y sector gofal cymdeithasol ehangach, wedi llwyddo i gyflawni llawer iawn o ran yr uchelgais oedd mewn golwg pan weithredwyd Deddf Safonau Gofal 2000. Roedd y fframwaith o dan y Ddeddf honno, gydag AGGCC a Chyngor Gofal Cymru fel y prif gyrff rheoleiddio, yn gweithio'n dda i ni. Rhoddodd sylfaen o safonau i ni – ar gyfer y gweithlu a'n gwasanaethau gofal a chymorth – a heb os mae'r cyhoedd wedi cael eu gwarchod yn well o ganlyniad. Arweiniodd at gysondeb llawer gwell, at amddiffyn pobl yn well rhag cael eu camdrin a'u hecsbloetio ac at adnabod gwasanaethau sy'n is na'r safon. Rydym wedi llwyddo i godi perfformiad ac rydym yn parhau i ddefnyddio rheoleiddio ac arolygu i ddileu safonau gwael. Ond ers hynny rydym wedi cydnabod bod llawer o bethau wedi newid oddi mewn ac o gwmpas y sector a bod angen gofalu nad yw ein trefniadau rheoleiddio'n dyddio ac nad ydynt yn rhy gyfyng.

Felly, mae ein gwaith o ddiwygio'r system o reoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol o dan Ddeddf 2016 yn seiliedig ar bum egwyddor allweddol:

1. Ymateb i ddiwygiadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;

2. Sicrhau bod dinasyddion wrth galon y gofal a'r cymorth;

3. Datblygu dull cydlynol a chyson o wneud pethau yng Nghymru;

4. Mynd i'r afael â methiannau gan ddarparwyr; a

5. Ymateb i fodelau gwasanaeth newydd ac unrhyw bryderon sy'n codi am ansawdd y gwasanaethau gofal a chymorth.

Mae gan y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn ran fawr i'w chwarae mewn gweithredu a datblygu'r diwygio hwn.

**Lle'r ydyn ni nawr?**

Erbyn Ebrill 2019 bydd Deddf 2016 wedi cael ei gweithredu'n llawn. Fel rhan o hyn cafodd y system newydd o reoleiddio'r gweithlu a sefydlwyd gan y Ddeddf ei gweithredu yn Ebrill 2017, system sydd bellach ar waith gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Yn dilyn ymlaen o hyn bydd y system newydd o reoleiddio ac arolygu gwasanaethau a sefydlwyd gan y Ddeddf, i'w chyflwyno gan AGGCC, yn cael ei gweithredu a'i rhoi ar waith erbyn Ebrill 2019. Fodd bynnag, er mwyn rhoi digon o amser i sefydlu'r system newydd, daw rhai o'r rheoliadau gwasanaeth – a amlinellir ac a brofir yn yr ymgynghoriad hwn – i rym yn Ebrill 2018.

Roedd y datganiad o fwriad polisi a gyhoeddwyd pan gyflwynwyd y ddeddfwriaeth i'r Cynulliad Cenedlaethol yn 2015 yn cyflwyno'r cynigion cyffredinol ar gyfer ymarfer y pwerau i lunio is-ddeddfwriaeth o dan y Ddeddf. Gan adeiladu ar hyn, mae'r rheoliadau, y codau ymarfer a'r canllawiau statudol o dan y Ddeddf yn cael eu datblygu mewn tri cham sy'n gorgyffwrdd.

Roedd y cam cyntaf (2016 – 2017) yn cynnwys y rheoliadau sydd eu hangen i gyflwyno system newydd o reoleiddio'r gweithlu o dan y Ddeddf. Roedd ganddo hefyd ffocws ar reoliadau drafft yng nghyswllt rhai o'r prif brosesau sy'n ategu'r system newydd o reoleiddio gwasanaethau – sef y gofynion i gofrestru fel darparwr gwasanaeth, amrywio cofrestru, ffurflenni blynyddol gan ddarparwyr gwasanaeth, a gwybodaeth i'w chynnwys mewn hysbysiadau i awdurdodau lleol. Roedd y gwaith o ddatblygu'r rheoliadau drafft hyn wedi'i oleuo gan weithdai technegol gyda rhanddeiliaid a gynhaliwyd yn Chwefror 2016 cyn ymgynghori arnynt yn ystod haf 2016. Yna aethpwyd ymlaen i lunio'r rheoliadau gweithlu ym mis Tachwedd / Rhagfyr 2016 a daethant i rym ar 3 Ebrill 2017. Bydd y rheoliadau gwasanaeth yng ngham un yn cael eu hadolygu yng ngoleuni canlyniadau'r ymgynghoriad hwn ac yn cael eu rhoi gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru nes ymlaen eleni.

Yn yr ail gam hwn (2017 – 2018) rydym yn ymgynghori'n bennaf ar reoliadau sy'n rhoi gofynion ar ddarparwyr gwasanaeth ac unigolion cyfrifol dynodedig wrth ddarparu gofal a chymorth fel rhan o wasanaethau rheoledig (o dan adrannau 27 a 28 y Ddeddf). Mae'r canllawiau statudol drafft a ddatblygwyd o dan adran 29 y Ddeddf yn rhoi mwy o fanylion am sut y gallai darparwyr ac unigolion cyfrifol gydymffurfio â'r gofynion yn y rheoliadau. Mae'r rheoliadau hyn yn gwbl greiddiol i'r system newydd o reoleiddio gwasanaethau ac mae llawer iawn o ddiddordeb wedi bod ynddynt. Rydym wedi gweithio'n agos iawn â rhanddeiliaid drwy'r gweithdai technegol a gynhaliwyd yn ystod yr hydref 2016 i oleuo eu datblygiad.

Rydym hefyd yn ymgynghori ar reoliadau cysylltiedig fydd yn cwblhau'r fframwaith rheoleiddio craidd ar gyfer darparwyr gwasanaeth ac unigolion cyfrifol. Mae'r rhain yn cynnwys darpariaethau sy'n:

- nodi pa wasanaethau na ddylid eu trin fel gwasanaethau rheoledig i bwrpas y Ddeddf (adran 2(3));
- cynnwys gofynion i hysbysu yn achos darparwyr gwasanaeth sydd wedi eu diddymu, neu yn achos unigolion, sydd wedi marw (adrannau 30 a 31);

- nodi pa dor-ofynion yng nghyswllt y gofynion a roddir ar ddarparwyr gwasanaeth mewn rheoliadau o dan adran 27, a'r gofynion a roddir ar unigolion cyfrifol mewn rheoliadau o dan adran 28, fydd yn cael eu trin fel troseddau (adrannau 45 a 46);
- nodi'r trefniadau ar gyfer cynllun hysbysiadau cosb (adran 52).

Rhoddir y rhestr o wasanaethau rheoledig yn adran 2(1) y Ddeddf gyda'r diffiniadau o'r gwasanaethau hyn wedi eu rhoi yn Atodlen 1 i'r Ddeddf[1]. Y rhain yw:

- gwasanaeth cartrefi gofal
- gwasanaeth llety diogel
- gwasanaeth canolfannau preswyl i deuluoedd
- gwasanaeth mabwysiadu
- gwasanaeth maethu
- gwasanaeth lleoliadau oedolion
- gwasanaeth eiriolaeth
- gwasanaeth cymorth yn y cartref

Mae'r ymgynghoriad hwn o dan gam II yn ymwneud *dim ond* â'r gofynion yng nghyswllt **gwasanaethau cartrefi gofal (i oedolion a phlant), gwasanaethau cymorth yn y cartref, gwasanaeth canolfannau preswyl i deuluoedd** a **gwasanaethau llety diogel.**

Ar ôl derbyn adborth gan randdeiliaid drwy'r gweithdai technegol a gynhaliwyd yn yr hydref 2016, penderfynodd y Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai'r gofynion ar gyfer gweddill y gwasanaethau rheoledig – gwasanaethau mabwysiadu, gwasanaethau maethu, gwasanaethau eiriolaeth, a gwasanaethau lleoliadau oedolion (a elwir hefyd yn Rhannu Bywydau) – yn cael eu hystyried o dan drydydd cam, er mwyn rhoi mwy o amser i ymgysylltu â'r sectorau hyn. Yn fras, dylai amseriad cam tri adlewyrchu amseriad cam dau flwyddyn yn ddiweddarach, felly byddem yn disgwyl ymgynghori ar y rheoliadau drafft a'r canllawiau statudol cysylltiedig yn ystod haf 2018.

Mae llawer o'r pwerau ar wneud rheoliadau yn y Ddeddf yn gysylltiedig. Gallai penderfyniadau ynghylch cynnwys rheoliadau a ddatblygir fel rhan o'r ail gam effeithio ar fanylion y rheoliadau gwasanaeth a ddatblygwyd yn y cam cyntaf.  Byddwn yn cyhoeddi'r wybodaeth am unrhyw newidiadau o'r fath i gyd-fynd â gosod y rheoliadau hyn nes ymlaen eleni.

Ein bwriad yw bod yr holl reoliadau a ddatblygir o dan gamau gweithredu un i dri yn eu lle erbyn Ebrill 2019, yn unol â'n bwriad polisi cyhoeddedig.

---

[1] http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/2/schedule/1/enacted/welsh

**Yr ymgynghoriad hwn**

Nod yr ymgynghoriad hwn yw holi eich barn am y rheoliadau a'r canllawiau statudol cysylltiedig a ddrafftiwyd fel rhan o'r ail gam ac sy'n ymwneud â'r gwasanaethau rheoledig canlynol:

- gwasanaethau cartrefi gofal,
- gwasanaethau cymorth yn y cartref,
- gwasanaeth canolfannau preswyl i deuluoedd, a
- gwasanaethau llety diogel.

Y dogfennau sy'n destun yr ymgynghoriad hwn yw:

- *Rheoliadau Gwasanaethau Rheoledig (Darparwyr Gwasanaeth ac Unigolion Cyfrifol) 2017*

- *Rheoliadau Gwasanaethau Rheoledig (Hysbysiadau Cosb) 2017*

- *Canllawiau Statudol i ddarparwyr ar gwrdd â rheoliadau safonau gwasanaeth.*

Bydd eich ymatebion i'r ymgynghoriad yn helpu i oleuo ein hystyriaeth o'r rheoliadau a'r canllawiau terfynol. Ein bwriad yw dadansoddi eich ymatebion yn ystod yr hydref. Byddwn yna'n ystyried pa newidiadau i'w gwneud cyn gwneud a gosod y rheoliadau tuag at ddiwedd y flwyddyn hon.

**Y cynigion**

**<u>Rheoliadau Gwasanaethau Rheoledig (Darparwyr Gwasanaeth ac Unigolion Cyfrifol) 2017</u>**

Mae'r offeryn statudol drafft hwn ('y Rheoliadau drafft') yn cynnwys rheoliadau sydd:

- yn nodi pa wasanaethau eithriedig na ddylid eu trin fel gwasanaethau rheoledig (o dan adran 2(3) y Ddeddf);
- yn rhoi gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau rheoledig (o dan adran 27 y Ddeddf);
- yn rhoi gofynion ar unigolion cyfrifol dynodedig (o dan adran 28 y Ddeddf);
- yn nodi pa dor-ofynion yng nghyswllt y gofynion a roddir ar ddarparwyr gwasanaeth ac unigolion cyfrifol sydd i'w trin fel troseddau (o dan adrannau 27 a 28 y Ddeddf);
- yn rhoi gofynion ar berson penodedig yng nghyswllt darparwyr gwasanaeth sydd wedi eu diddymu (o dan adran 30 y Ddeddf);
- yn rhoi gofynion ar gynrychiolydd personol i ddarparwr gwasanaeth sydd wedi marw (lle mae'r darparwr gwasanaeth yn unigolyn) (o dan adran 31 y Ddeddf);
- yn nodi o dan ba amgylchiadau y gallai Gweinidogion Cymru (yn hytrach na darparwyr gwasanaeth) ddynodi unigolyn cyfrifol (o dan adran 21(5) y Ddeddf).

Mae'r dull o ddatblygu'r rheoliadau hyn wedi ceisio sicrhau bod y gofynion hyn:

- **Yn gymesur:** dylai'r gofynion ymwneud â materion sydd o fewn rheolaeth y darparwr gwasanaeth a'r unigolyn cyfrifol, ac a fydd yn arwain at wella ansawdd ac ymarfer;
- **Yn gyson** ar draws yr holl wasanaethau rheoledig: nid yw hyn i ddweud bod "un esgid yn ffitio pawb" ond y dylid cymhwyso'r un safonau uchel ar draws pob gwasanaeth. Mae'r gofynion felly, o reidrwydd, yn rhai lefel uchel gyda'r manylion am sut y gellid cydymffurfio â'r gofynion wedi eu gosod allan yn y Canllawiau Statudol;
- **Yn rhoi ffocws ar ganlyniadau i bobl:** y bwriad yw bod y gofynion yn galluogi darparu gwasanaethau sy'n helpu pobl i gyflawni *beth sy'n bwysig iddynt*, yn unol ag ethos Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Nod y gofynion yw rhoi digon o hyblygrwydd i'r darparwyr er mwyn gallu gofalu am a chefnogi pobl mewn ffordd sy'n rhoi'r unigolyn wrth galon eu gofal.

Mae'r Rheoliadau drafft yng ngham gweithredu dau yn berthnasol i'r **mathau canlynol o wasanaethau rheoledig:**

- gwasanaethau cartrefi gofal;
- gwasanaethau cymorth yn y cartref;
- gwasanaeth canolfannau preswyl i deuluoedd;
- gwasanaethau llety diogel.

Rydym yn arbennig o awyddus i sicrhau bod y gofynion yn y rheoliadau'n addas a phriodol i'r ystod lawn o wasanaethau rheoledig a grwpiau oed.

Byddem yn croesawu eich barn ynghylch a gredwch fod unrhyw beth ar goll o'r gofynion neu a yw rhai o'r gofynion efallai'n ddiangen.

Mae'r Canllawiau Statudol, a grewyd o dan adran 29 y Ddeddf, yn rhoi mwy o gyd-destun a manylion am sut y gallai darparwyr gwasanaethau rheoledig ac unigolion cyfrifol gydymffurfio â'r gofynion a orfodir gan y rheoliadau. Rhaid i ddarparwyr gwasanaeth ac unigolion cyfrifol roi sylw dyledus i'r canllawiau hyn wrth ddarparu gwasanaeth rheoledig.

**Eithriadau i wasanaethau rheoledig**

Bydd angen i wasanaethau sy'n dod o dan y diffiniad o "wasanaethau rheoledig", a roddir yn Atodlen 1 i'r Ddeddf, gofrestru â'r rheoleiddiwr gwasanaeth cyn darparu'r gwasanaeth. Fodd bynnag, mae rheoliadau yn Rhan 2 y Rheoliadau drafft – a wnaed o dan adran 2(3) y Ddeddf – yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi pethau <u>na ddylid</u> eu trin fel gwasanaeth rheoledig, er gwaethaf Atodlen 1. Ni fyddai angen i'r gwasanaethau hyn gofrestru â'r rheoleiddiwr gwasanaeth.

Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn eithrio rhai pethau o sgôp rheoleiddio – er enghraifft gofal a roddir i aelod o'r teulu. Yn unol â'r bwriad a gyflwynir yn Neddf 2016, mae'r rheoliadau yn Rhan 2 yn sicrhau bod gwasanaethau sydd ar hyn o bryd y tu allan i sgôp rheoleiddio'n parhau i fod y tu allan.

Er bod yr eithriadau a restrir yn y rhan yma'n cynnwys pob un a restrir yn Neddf Safonau Gofal 2000, mae rhai eithriadau ychwanegol y dylid tynnu sylw atynt yma:

1. <u>Nid oes</u> raid i Ymddiriedolaeth, a sefydlwyd i'r pwrpas o ddarparu gwasanaethau i gwrdd ag anghenion iechyd neu ofal cymdeithasol unigolyn penodol, gofrestru fel gwasanaeth cymorth yn y cartref. Mae'r eithriad hwn wedi'i fwriadu ar gyfer Ymddiriedolaethau Defnyddwyr Annibynnol (IUT). Trefniant yw IUT i helpu unigolyn i gael rheolaeth well dros eu gofal drwy ddirprwyo darparu'r gofal, cyn belled ag y bo modd, i bersonau sy'n gweithredu ar ran yr unigolyn, yn hytrach na bod gofal yn cael ei gomisiynu gan y GIG neu adran gwasanaethau cymdeithasol.

2. Nid yw darparu llety, ynghyd â gofal, lle mae'r llety'n sefydliad i droseddwyr ifanc a ddarperir o dan neu yn rhinwedd adran 43(1) o Ddeddf Carchardai 1952, yn cael ei ddosbarthu fel gwasanaeth cartref gofal. Mae hyn oherwydd bod sefydliadau troseddwyr ifanc yn cael eu rheoleiddio a'u harolygu fel rhan o'r gwasanaeth carchardai.

3. Nid yw darparu llety, ynghyd â gofal nyrsio, i oedolyn fel rhan o berthynas deuluol neu bersonol a heb dderbyn unrhyw dâl masnachol, yn wasanaeth cartref gofal. Nid yw darparu llety a chymorth i oedolyn, fel rhan o berthynas deuluol neu bersonol a heb dderbyn unrhyw dâl masnachol, yn wasanaeth cymorth yn y cartref rheoledig. Diffinnir perthynas deuluol fel un yn cynnwys perthynas rhwng dau berson sy'n byw yn yr un cartref ac sy'n trin ei gilydd fel pe baent yn aelodau o'r un teulu. Gallai hyn gynnwys perthynas rhwng aelodau o gymunedau crefyddol.

**Gofynion ar ddarparwyr gwasanaeth**

Mae **Rhannau 3 i 13** o'r Rheoliadau drafft yn nodi'r gofynion manwl ar ddarparwyr gwasanaethau rheoledig yng nghyswllt safon y gofal a'r cymorth sydd i'w ddarparu i unigolion. Mae'n ymwneud â'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 27 y Ddeddf. "Darparwr gwasanaeth" yw person sydd wedi cofrestru ag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i ddarparu gwasanaeth rheoledig.

Mae **Rhan 3** yn ymwneud â'r gofynion cyffredinol ar ddarparwr gwasanaeth o ran sut y darperir y gwasanaeth. Mae'n cynnwys gofynion yn ymwneud â'r datganiad o bwrpas; trefniadau ar gyfer monitro a gwella; materion yn ymwneud â'r unigolyn cyfrifol dynodedig a gofynion yn ymwneud â chynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth. Mae'r Rhan yma'n nodi materion yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau. Mae hefyd yn rhoi 'dyletswydd gonestrwydd' ar ddarparwyr gwasanaeth i weithredu mewn ffordd agored a thryloyw.

Mae'r **datganiad o bwrpas** yn ganolog i'r system o reoleiddio ac arolygu sy'n cael ei sefydlu o dan Ddeddf 2016. Ni fydd mwyach unrhyw amodau cofrestru caniataol ar gyfer gwasanaethau gofal arbenigol penodol. Y Datganiad o Bwrpas fydd y ddogfen ganolog fydd yn nodi natur y gwasanaeth y mae'r darparwyr wedi cofrestru i'w ddarparu yn ogystal ag unrhyw wasanaeth gofal arbenigol. Felly bydd yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaeth hysbysu AGGCC ac eraill os ydynt yn bwriadu newid gwasanaeth yn sylweddol, neu newid y ffordd y caiff ei ddarparu, cyn gwneud newidiadau o'r fath. Bydd AGGCC yn defnyddio'r hysbysiad hwn i oleuo ei phenderfyniad ynghylch y newid arfaethedig i'r gwasanaeth. Mae'r Rheoliadau drafft yn cynnwys gofyniad ar ddarparwyr gwasanaeth i hysbysu'r rheoleiddiwr o leiaf 28 diwrnod cyn gwneud y newidiadau hyn i'r datganiad o bwrpas. Bydd y canllawiau statudol drafft yn rhoi eglurder pellach o ran y math o newidiadau y byddai'r rheoleiddiwr gwasanaeth (AGGCC) eisiau cael gwybod amdanynt.

Dyma rai enghreifftiau:

- lle mae gwasanaeth nad yw'n darparu gofal nyrsio'n bwriadu darparu gofal nyrsio;
- lle bwriedir darparu gwasanaethau arbenigol ychwanegol;
- lle bwriedir rhoi'r gorau i wasanaeth penodol a enwir yn y datganiad o fwriad; neu
- lle bwriedir newid y trefniadau staffio.

Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed eich barn ynghylch a yw'r gofyniad hwn yn rhesymol a chymesur.

Mae Rheoliad 7 yn nodi'r polisïau a'r gweithdrefnau craidd sy'n rhaid iddynt fod yn eu lle gan y gwasanaethau rheoledig. Cyfeirir hefyd at rai o'r polisïau a'r gweithdrefnau a restrir yma yn y Rheoliadau Gwasanaethau Rheoledig (Cofrestru) (Cymru) 2017[2] drafft a ddatblygwyd ac y buom yn ymgynghori arnynt yng Ngham Un.

[2] https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/ymgynghoriad-ar-gam-1-y-broses-o-roi-deddf-rheoleiddio-ac-arolygu-gofal-cymdeithasol

Mae **Rhan 4** yn trafod y camau sydd i'w cymryd cyn y bydd darparwr gwasanaeth yn cytuno i ddarparu gofal a chymorth i unigolyn.  Y bwriad yma yw sicrhau bod y gwasanaeth yn addas ac yn gallu cwrdd ag anghenion yr unigolyn a hefyd yn gallu cefnogi'r unigolyn i gyflawni eu canlyniadau personol.  Rhaid i'r penderfyniad ar addasrwydd y gwasanaeth ystyried cynllun gofal a chymorth yr unigolyn o dan adran 54 neu adran 83 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae **Rhan 5** yn trafod y camau sydd i'w cymryd unwaith y bydd y darparwr gwasanaeth wedi gwneud penderfyniad a chytuno i ddarparu gofal a chymorth i unigolyn. Mae hyn yn cynnwys gofyniad i lunio 'cynllun personol' yn nodi sut y bydd anghenion yr unigolyn yn cael eu cwrdd o ddydd i ddydd. Y bwriad yma yw sicrhau bod cynllun cywir a diweddar yn ei le sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd i addasu i unrhyw newid yn amgylchiadau'r unigolyn. Mae hefyd yn ofynnol i'r darparwr gwasanaeth gyflawni eu hasesiad eu hunain o ran sut y gall y gwasanaeth gwrdd orau ag anghenion gofal a chymorth yr unigolyn, a sut y gall helpu'r person i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt gan ystyried barn, dymuniadau a theimladau'r unigolyn. Nid yw'n fwriad bod yr asesiad yn dyblygu unrhyw asesiad a allai eisoes fod wedi cael ei gyflawni gan yr awdurdod lleol, yn hytrach dylai gael ei oleuo gan unrhyw gynlluniau a grewyd o ganlyniad i asesiadau o'r fath – er enghraifft cynllun gofal a chymorth. Y bwriad yma, er bod anghenion gofal a chymorth unigolyn efallai wedi cael eu hasesu eisoes (gan yr awdurdod lleol), yw bod yn rhaid i'r darparwr fodloni eu hunain bod eu gwasanaeth yn gallu gofalu am a chefnogi'r unigolyn a meddwl sut y bydd hyn yn cael ei wneud o ddydd i ddydd.

Roeddem wedi derbyn llawer o sylwadau gan randdeiliaid yn y gweithdy technegol ynghylch sut fydd y gofynion i asesu a chreu cynllun yn cyd-fynd â'r gofynion presennol ar awdurdodau lleol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Efallai y byddwch am roi sylw penodol i'r mater hwn yn eich ymateb.

Mae **Rhan 6** yn trafod gwybodaeth sy'n rhaid ei rhoi am y gwasanaeth mewn llawlyfr ysgrifenedig.  Y bwriad yma yw rhoi eglurder ar ddiwylliant ac ethos y gwasanaeth rheoledig ac ar ystod o faterion eraill. Mae'r rheoliadau'n nodi rhai o'r gofynion ar gyfer y llawlyfr hwn; er enghraifft rhaid i'w iaith, arddull, cyflwyniad a'i fformat fod yn briodol gan ystyried y gwasanaeth rheoledig a'r unigolion y darperir gofal a chymorth ar eu cyfer. Bydd manylion y llawlyfr ei hun yn dibynnu, i raddau, ar natur y gwasanaeth rheoledig ac am y rheswm hwn nid yw'r rheoliadau'n rhy benodol o ran yr hyn y mae'n ei ddisgwyl.  Fodd bynnag, yn unol â'r rheoliadau, rhaid i'r llawlyfr gynnwys gwybodaeth am sut i leisio pryder neu wneud cwyn, ynghyd â gwybodaeth am ba wasanaethau eiriolaeth sydd ar gael. Disgrifir y pethau eraill y dylai'r llawlyfr roi sylw iddynt yn y canllawiau statudol drafft. Mae hefyd yn ofynnol o dan y rheoliadau bod unigolion yn derbyn unrhyw gymorth sydd ei angen arnynt i ddeall y wybodaeth yn y llawlyfr hwn.

Mae Rhan 6 hefyd yn nodi'r gofynion o ran gwybodaeth sy'n rhaid ei rhoi am gost, a hefyd am delerau ac amodau, y gwasanaeth.

Mae **Rhan 7** yn cynnwys gofynion yn ymwneud â safon y gofal a'r cymorth a ddarperir. Mae'n cynnwys gofynion trosfwaol fydd yn ategu ansawdd y gwasanaeth.  Mae hefyd yn cynnwys gofynion yng nghyswllt materion fel parhad gofal, darparu gwybodaeth, cwrdd ag anghenion iaith a chyfathrebu'r unigolyn a sicrhau bod unigolion yn cael eu trin gyda pharch a sensitifrwydd. Mae'r canllawiau statudol yn nodi'r manylion o ran sut y gallai darparwyr gwasanaeth gydymffurfio â'r gofynion hyn.  Rydym yn awyddus i sicrhau bod y canllawiau'n cynnwys digon o fanylion am yr ystod o wasanaethau rheoledig yn y Rheoliadau drafft hyn, a'u bod yn berthnasol i blant yn ogystal ag i oedolion. Efallai y byddwch am roi sylw penodol i hyn yn eich ymateb.

Mae'r rhan yma hefyd yn cynnwys gofynion o ran sut y bydd ymddygiad priodol yn cael ei gefnogi a'i hyrwyddo mewn ffordd gadarnhaol.  Eto, mae'r manylion yn y canllawiau statudol drafft.  Mae hwn yn faes oedd o ddiddordeb arbennig fel rhan o'r ymgynghori â rhanddeiliaid. Roeddent yn bryderus am derminoleg a thôn yr adran hon ac eisiau gwneud yn siŵr bod unrhyw ofynion yn seiliedig ar hawliau unigolyn ac yn canolbwyntio ar les yr unigolyn. Rydym yn awyddus i sicrhau ein bod wedi ateb y pryderon hyn.  Efallai y byddwch am roi sylw penodol i hyn yn eich ymateb.

Mae **Rhan 8** yn cynnwys gofynion y bwriedir iddynt sicrhau bod unigolion yn ddiogel ac wedi eu hamddiffyn rhag cael eu camdrin a'u trin yn amhriodol. Mae'r rhan yma'n cynnwys gofynion ar ddefnyddio rheolaeth ac ymatal.  Y bwriad yma yw nodi'n gwbl glir mai dim ond yn niffyg popeth arall y dylid gwneud y pethau hyn. Eto, mae hyn yn rhywbeth yr oedd rhanddeiliaid yn awyddus i'w weld yn cael ei ddisgrifio'n briodol yn y rheoliadau. Roedd rhanddeiliaid yn bendant y dylai'r rheoliadau ddiffinio beth y mae rheolaeth ac ymatal yn ei feddwl, gan gynnwys gyda defnyddio cemegion. Dylai'r gofynion hefyd, yn eu barn nhw, ystyried y canllawiau cenedlaethol presennol. Teimlai nifer o'r rhanddeiliaid hefyd fod y geiriau 'rheolaeth ac ymatal' wedi dyddio ond nid ydym wedi llwyddo i ddod o hyd i eiriau amgenach. Efallai y byddwch am roi sylw penodol i hyn yn eich ymateb.

Mae **Rhan 8** hefyd yn cynnwys darpariaeth ynghylch cefnogi a galluogi unigolion i reoli eu harian eu hunain a hefyd i'w hamddiffyn rhag cael eu camdrin yn ariannol. Nid oedd rhanddeiliaid o blaid y cysyniad o "reoli arian pobl" oherwydd ei fod yn rhoi'r argraff, yn eu barn nhw, bod darparwyr gwasanaeth sy'n rheoli arian ar ran unigolion yn 'norm'. Nid dyma'r bwriad. Rydym wedi defnyddio'r geiriau "cefnogi unigolion i reoli eu harian" er mwyn nodi'n glir y gall darparwyr ddarparu'r cymorth hwn lle bo hynny'n briodol.  Yn yr amgylchiadau hyn mae'n amlwg bod angen sicrhau bod y rhagofalon priodol yn eu lle.  Rydym felly wedi cynnwys gofyniad bod gwahaniaeth clir yn cael ei wneud rhwng arian unigolion ac arian y darparwr. Rydym hefyd wedi ailadrodd gofyniad sydd eisoes yn bodoli na ddylai pobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth, cyn belled ag y bo'n ymarferol, fod yn 'asiant' i unigolyn.  Mae gennym ddiddordeb yn eich barn ynghylch a yw'r gofynion hyn yn rhoi digon o eglurder i ddarparwyr yn ogystal â gwarchod buddiannau'r unigolyn.

Mae **Rhan 9** yn cynnwys gofynion fydd ond yn berthnasol i wasanaethau rheoledig lle darperir llety. Mae hyn yn cynnwys rhoi trefniadau yn eu lle fel bod gan unigolion fynediad at wasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill, a bod gan blant weithiwr cyswllt dynodedig.

Mae **Rhan 10** yn nodi’r gofynion yng nghyswllt staffio. Mae’n cynnwys gofynion penodol ynghylch ffitrwydd unigolion sy’n gweithio yn y gwasanaeth, gan gynnwys gwirfoddolwyr a staff asiantaeth. Mae’r gofynion o ran gwybodaeth a dogfennau penodol i’w cael yn Atodlen 1.

Mae nifer o faterion sydd angen bod yn ymwybodol ohonynt yma. Yn gyntaf, ni fyddai mwyach unrhyw ofyniad sylfaenol ar gyfer nyrsys cofrestredig yn gweithio mewn cartrefi gofal sy’n cynnwys gofal nyrsio. O dan Reoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002 roedd yn ofynnol i nyrs gymwysedig fod yn gweithio bob amser lle’r oedd nyrsio’n cael ei ddarparu. Y teimlad oedd y byddai dileu’r gofyniad presennol a chael un nyrs ar ddyletswydd am 24 awr y dydd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ddarparwyr gwasanaeth i ddarparu’r lefel o ddarpariaeth a nifer y nyrsys sydd eu hangen mewn gwirionedd i ateb anghenion a lles y bobl y mae’r gwasanaeth yn gofalu amdanynt. Mae rhagofal ychwanegol wedi’i ychwanegu sef bod yn rhaid i ddarparwyr gwasanaeth ddangos sut y gwnaethant benderfynu pa fath o staff a faint o staff o bob math sydd ar gael.

Yn ail, nid yw Deddf 2016 yn gofyn bod rheolwyr wedi cofrestru â'r rheoleiddiwr gwasanaeth, AGGCC. Fodd bynnag mae’n rhaid i Gofal Cymdeithasol Cymru gadw cofrestr o weithwyr gofal cymdeithasol. Mae’r rheoliadau hyn yn gofyn bod yn rhaid i reolwyr a benodir gan unigolion cyfrifol i redeg gwasanaeth rheoledig fod wedi cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru.

Efallai y byddwch am roi sylw penodol i’r pethau hyn yn eich ymateb.

Mae **Rhan 11** yn trafod gofynion yng nghyswllt adeiladau, cyfleusterau a chyfarpar. Mae rhai o’r gofynion yn berthnasol dim ond lle darperir llety ond mae eraill yn berthnasol ym mhob achos. Er enghraifft, bydd y gofynion ar gyfer pob gwasanaeth yn cynnwys sicrhau bod gan adeiladau a ddefnyddir i redeg y gwasanaeth gyfleusterau digonol ar gyfer goruchwylio staff a chadw cofnodion yn ddiogel.

Ar gyfer gwasanaethau lle darperir llety, mae cymysgedd o ofynion cyffredinol a phenodol. Mae’r gofynion cyffredinol yn cynnwys adeiladau gyda thir allanol y mae gan unigolion fynediad ato ac sy'n addas a diogel iddynt ei ddefnyddio, ac sy’n cael ei gynnal yn briodol. Maen nhw hefyd yn cynnwys sicrhau bod adeiladau’n hygyrch ac wedi eu goleuo, gwresogi, awyru a'u dodrefnu'n ddigonol a gyda chyfarpar digonol etc.

Mae’r rhan yma hefyd yn cynnwys gofynion penodol ynghylch rhannu ystafelloedd, ar gyfer oedolion a phlant. Mae’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol presennol ar gyfer Gwasanaethau Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn yn cynnwys gofyniad i wneud i ffwrdd yn raddol â rhannu ystafelloedd. Roedd disgwyl i ystafelloedd sengl gynrychioli o leiaf 85% o’r lleoedd mewn cartrefi preswyl erbyn 2010. Y bwriad pendant yw bod y cynnydd sydd wedi’i wneud yn y maes hwn yn parhau. Crynhoir y rheoliadau’n ymwneud â rhannu ystafelloedd isod:

- Ar gyfer oedolion, caniateir rhannu ystafelloedd dim ond lle mae’r oedolyn yn dewis rhannu ystafell ag oedolyn arall a lle mae perthynas deuluol rhwng yr oedolion oedd yn bodoli cyn symud i’r cartref.

- O ran gwasanaethau cartrefi gofal i blant, rhaid i bob plentyn gael ei ystafell ei hun oni bai:
    - mae’r plentyn yn yr ystafell eisoes yn rhannu gyda dim ond un plentyn arall sydd heb fod o’r un rhyw – ac eithrio yn achos brodyr a chwiorydd – neu’n oed tra gwahanol i’r plentyn, *a*
    - os bydd rhannu ystafell yn hybu lles y plentyn, os darperir ar gyfer hynny yng nghynllun gofal a chymorth y plentyn a, lle bynnag y bo’n ymarferol, lle mae’r plentyn yn cytuno.

Mae’r gofynion penodol ynghylch rhannu ystafelloedd – ar gyfer oedolion a phlant – yn berthnasol i wasanaethau sydd â chofrestriad presennol lle mae pobl yn derbyn llety, ac i adeiladau ac estyniadau newydd. Daw’r rheoliadau hyn i rym cyn gynted ag y bydd gwasanaethau wedi cofrestru ag AGGCC o dan y system newydd o fis Ebrill 2018 ymlaen.

<u>Ni fydd</u> y rheoliadau hyn yn golygu y bydd darparwyr gwasanaeth yn gorfod symud pobl yn syth o ystafelloedd a rennir ar yr amod bod deiliaid yr ystafelloedd yn dewis parhau i rannu.

Efallai y byddwch am roi sylw penodol i’r pethau hyn yn eich ymateb.

Mae **Rhan 12** yn ymwneud â gofynion ychwanegol lle mae’r safle'n cynnwys adeilad newydd, estyniad, neu adeilad gyda chofrestriad blaenorol ond nad yw wedi'i feddiannu ar yr adeg pan fo'r darparwr gwasanaeth yn gwneud cais i gofrestru o dan y gyfraith newydd.

Er mai’r bwriad yw cael rheoliadau ar lefel uchel briodol i sicrhau bod gan ddarparwyr gwasanaeth yr hyblygrwydd i gefnogi pobl i gyflawni eu canlyniadau personol mewn amrywiaeth o ffyrdd, mae rhai gofynion yn fwy penodol er mwyn sicrhau y cynhelir safonau priodol. Mae nifer o ofynion yn y rhan yma sy’n ymwneud â darparu cyfleusterau *en-suite* mewn ystafelloedd, meintiau ystafelloedd, gofod cymunedol a gofod awyr agored.

Yn ôl adborth gan randdeiliaid a dderbyniwyd yn ystod y broses o ddatblygu’r gofynion hyn, mae cyfleusterau *en-suite* weithiau’n segur oherwydd nad yw unigolion yn gallu eu defnyddio am resymau diogelwch neu hygyrchedd. Byddem yn croesawu eich barn am faint o hyblygrwydd fyddai'n ddymunol gyda chyfleusterau *en-suite*, ac a ddylent fod yn ofynnol ar gyfer pob ystafell neu ddim ond canran o ystafelloedd. Byddem hefyd yn croesawu eich barn ynghylch a ddylid cael dull mwy penodol gyda chyfleusterau *en-suite* yn y stoc gartrefi sydd eisoes wedi cofrestru ac wedi eu meddiannu, ac os felly, sut i'w gyflwyno dros amser.

Byddem yn croesawu eich barn ynghylch a yw’r lleiafswm meintiau ystafell sydd mewn golwg yn ddigonol.

Yn fwy cyffredinol, byddem hefyd yn croesawu eich barn ynghylch a ddylid cymhwyso’r gofynion eraill yn Rhan 12 i bob gwasanaeth sy’n darparu llety, gan gynnwys y stoc bresennol o lety cofrestredig ac a feddiannir, ac os felly sut y dylid cyflwyno hyn yn raddol dros amser.

Mae **Rhan 13** yn nodi’r gofynion ar gyfer cyflenwadau, hylendid, iechyd a diogelwch a meddyginiaeth.

Mae **Rhan 14** yn cynnwys amrywiol ofynion ar ddarparwyr gwasanaeth, gan gynnwys gofynion ar gyfer cadw cofnodion a gwneud hysbysiadau i’r rheoleiddiwr gwasanaeth a chyrff eraill. Mae Atodlen 2 yn nodi pa gofnodion sydd angen eu cadw ac mae Atodlen 3 yn nodi pa hysbysiadau penodol sydd i’w gwneud. Mae’r rhan yma hefyd yn cynnwys gofynion ar y darparwr gwasanaeth i fod â pholisi cwynion a pholisi chwythu’r chwiban yn eu lle.

**Unigolion Cyfrifol**

Mae **Rhannau 15 i 19** yn nodi'r gofynion ar unigolion cyfrifol yng nghyswllt lle y dynodwyd yr unigolyn ar ei gyfer, yn unol ag adran 28 y Ddeddf. Mae’r gofynion cymhwysedd yn adran 21 y Ddeddf yn sicrhau bod yr unigolyn cyfrifol yn “berson addas a phriodol” a hefyd ar lefel briodol o uchel yn y sefydliad. Rydym yn ymwybodol bod peth pryder ymhlith darparwyr gwasanaeth ynghylch pwy efallai a ddynodir yn unigolyn cyfrifol yn gyson ag adran 21 y Ddeddf, a bwriadwn fod yn gliriach ar hyn. Fodd bynnag nid yw’n fater sy’n cael sylw yn y Rheoliadau drafft hyn.

Bwriad y rheoliadau hyn yw sicrhau bod yr unigolyn cyfrifol yn parhau i fod yn gyffredinol gyfrifol am gyflawni’r gofynion hyn, ond gan wahaniaethu rhwng tasgau y gellir eu dirprwyo a thasgau na ellir eu dirprwyo. Er enghraifft, gall yr unigolyn cyfrifol “wneud trefniadau i gasglu barn yr unigolion sy’n derbyn gofal a chymorth” ond rhaid iddo ef neu hi “ymweld â phob man y dynodwyd yr unigolyn cyfrifol ar eu cyfer.” Yn amlwg, yr unigolyn cyfrifol ei hun a ddylai ymweld â’r gwasanaeth. Fodd bynnag, yr unigolyn cyfrifol sy’n parhau i fod yn gyffredinol atebol a chyfrifol am y dyletswyddau a gyflwynir yn y rheoliadau hyn.

Mae **Rhan 15** yn cynnwys gofynion o ran dyletswydd gyffredinol yr unigolyn cyfrifol i oruchwylio sut y caiff y gwasanaeth ei reoli, a'r dyletswyddau penodol o ran penodi person addas i reoli’r gwasanaeth, rhoi trefniadau yn eu lle i reoli’r gwasanaeth pan fydd y rheolwr yn absennol, ac ymweld â’r lleoedd hynny lle mae’r gwasanaeth yn cael ei ddarparu. Fel y nodir uchod mae ganddo ef neu hi ddyletswydd i barhau i fod yn gyffredinol atebol a chyfrifol am y gwasanaeth.

Y bwriad yn y Ddeddf yw bod person arall yn cael ei benodi fel rheolwr y gwasanaeth gan yr unigolyn cyfrifol. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod gwasanaethau’n weithredol ar hyn o bryd lle mai'r unigolyn sy'n gyfrifol am y gwasanaeth yw’r rheolwr hefyd. Derbyniwyd adborth cryf gan randdeiliaid na fyddai, ar gyfer gwasanaethau llai, yn ariannol hyfyw na’n ddymunol bod y darparwr gwasanaeth, a fyddai felly’n unigolyn cyfrifol o dan y Ddeddf, yn penodi rheolwr ar wahân. Fodd bynnag, byddai’n amlwg yn amhriodol i un person gyflawni’r ddwy rôl mewn sefydliad mwy o faint. Am y rheswm hwn, yr hyn a ragnodwn yw, lle mae darparwr gwasanaeth wedi cofrestru fel unigolyn, ac mae’r rheoleiddiwr gwasanaeth yn cytuno, bod y darparwr gwasanaeth yn gallu penodi eu hunain fel rheolwr ar y gwasanaeth. Yn yr amgylchiadau hyn byddai angen iddynt gofrestru fel rheolwr gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Byddem yn croesawu eich barn am hyn.

Mae **Rhan 16** yn cynnwys gofynion ar unigolion cyfrifol i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei oruchwylio’n effeithiol. Drwy roi’r gofynion hyn ar yr

unigolyn cyfrifol, mae’r rheoliadau yn y rhan yma’n sicrhau bod person ar lefel briodol o uchel yn y sefydliad yn atebol am ansawdd y gwasanaeth ac am sicrhau ei fod yn cydymffurfio. Mae’n ofynnol i’r unigolyn cyfrifol wneud adroddiadau i’r darparwr gwasanaeth ar ba mor ddigonol yw’r adnoddau, ac ar faterion eraill. Mae hefyd yn ofynnol iddynt wneud trefniadau i ymgysylltu ag unigolion ac eraill fel bod y darparwr gwasanaeth yn gallu ystyried eu barn am ansawdd y gofal a’r cymorth a ddarperir.

Mae **Rhan 17** yn nodi’r gofynion ar yr unigolyn cyfrifol i sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â gofynion eraill, gan gynnwys i hysbysu ynghylch digwyddiadau a chwynion ac i gadw cofnodion. Rhaid i’r unigolyn cyfrifol hefyd roi trefniadau yn eu lle i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau’r darparwr gwasanaeth yn cael eu diweddaru'n rheolaidd.

Mae **Rhan 18** yn nodi’r gofynion ar yr unigolyn cyfrifol i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a’r cymorth a ddarperir, gan gynnwys gwneud adroddiad i’r darparwr gwasanaeth. Bydd yr adroddiad hwn yn ffurfio rhan o ffurflen flynyddol y darparwr.

Mae **Rhan 19** yn nodi gofynion eraill ar yr unigolyn cyfrifol, gan gynnwys gofynion i wneud hysbysiadau penodol i’r rheoleiddiwr gwasanaeth. Rhestrir y rhain yn Atodlen 4.

**Troseddau**

**Rhan 20**

Gwneir y rheoliadau yn y rhan yma o dan y pwerau yn adran 45 a 46 y Ddeddf. Maent yn darparu, lle mae'r darparwr gwasanaeth o dan adran 45 a'r unigolyn cyfrifol o dan adran 46, yn methu â chydymffurfio â’r gofynion a ragnodir yn y rheoliadau, bod hynny yn drosedd. Mae amod pellach sy’n berthnasol mewn achosion o fethu â chydymffurfio â gofynion penodol. Yn yr achosion hyn, mae’r rheoliad yn darparu bod hyn ond yn drosedd os yw'r methiant i gydymffurfio'n arwain at unigolion yn dod i gysylltiad â niwed y gellid bod wedi'i osgoi, neu risg sylweddol o niwed o'r fath, neu eu bod wedi colli arian neu eiddo o ganlyniad i ddwyn, camddefnyddio neu gamarfer.

Mae’n werth nodi’n glir, er efallai nad yw methu â chydymffurfio â gofyniad penodol yn y rheoliadau’n drosedd, lle mae darparwr gwasanaeth yn methu â chydymffurfio ag unrhyw un o’r gofynion yn y rheoliadau yn Rhannau 3 i 14, gallai hynny fod yn sail dros ganslo cofrestriad y darparwr gwasanaeth o dan adran 15 y Ddeddf, a lle mae unigolyn cyfrifol yn methu â chydymffurfio ag unrhyw un o’r gofynion yn y rheoliadau yn Rhannau 15 i 19, gallai hynny fod yn sail dros ganslo dynodiad yr unigolyn cyfrifol o dan adran 22.

**Darparwyr gwasanaeth sy’n cael eu diddymu etc neu sydd wedi marw**

Mae **Rhan 21** yn nodi gofynion penodol sy’n berthnasol pan fydd y darparwr gwasanaeth wedi cael ei ddiddymu neu pan fydd darparwr gwasanaeth sy’n unigolyn wedi marw. Yn yr amgylchiadau hyn mae’r rheoliadau’n rhoi dyletswyddau hysbysu penodol ar y person penodedig (yn achos ansolfedd) neu'r cynrychiolwyr personol (yn achos marwolaeth darparwr gwasanaeth sy’n unigolyn).

**Dynodi unigolyn cyfrifol gan Weinidogion Cymru**

Mae **Rhan 22** yn nodi o dan ba amgylchiadau y gall Gweinidogion Cymru (yn hytrach na'r darparwr gwasanaeth) ddynodi unigolyn fel unigolyn cyfrifol, er na fyddai'r gofynion cymhwysedd o dan adran 21(2) wedi cael eu cwrdd ar gyfer yr unigolyn. Gwneir y rheoliad hwn o dan adran 21(5) y Ddeddf.

Y dull o weithredu o dan y Ddeddf yw y dylai'r cyfrifoldeb am ddynodi unigolyn cyfrifol orwedd yn bendant gyda'r darparwr gwasanaeth. Os oes person cymwys – yn ogystal ag addas a phriodol – sy'n cwrdd â'r gofynion yn y Ddeddf, disgwylir i'r darparwr gwasanaeth ddynodi'r person hwnnw neu honno fel yr unigolyn cyfrifol oni bai fod amgylchiadau eithriadol. Disgrifir yr amgylchiadau hyn yn y rheoliadau drafft.

## Canllawiau Statudol i ddarparwyr gwasanaeth ac unigolion cyfrifol ar gwrdd â rheoliadau safonau gwasanaeth

Mae'r canllawiau statudol drafft a ddatblygwyd o dan adran 29 y Ddeddf yn nodi sut y gall darparwyr gwasanaethau rheoledig ac unigolion cyfrifol gydymffurfio â'r gofynion a osodir gan Rannau 3 i 19 y Rheoliadau drafft uchod. Maent yn rhoi canllawiau pellach – canllawiau y mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaeth ac unigolion cyfrifol roi sylw iddynt – ar sut i gwrdd ag elfennau unigol pob rheoliad lle gallai fod angen eglurhad a diffiniad pellach. Mae'r rhain o reidrwydd yn rhai lefel uchel oherwydd y bwriad yw eu cymhwyso i bob math o wasanaeth rheoledig a grŵp oedran. Ni ddylid cymryd bod y canllawiau ar elfennau unigol pob rheoliad yn gwbl gynhwysfawr oherwydd efallai bod ffyrdd eraill y gallai darparwyr gwasanaeth ac unigolion cyfrifol ddangos eu bod yn cwrdd â hwynt. Ni fwriedir i rywun ystyried y canllawiau hyn ar eu pen eu hunain, ac felly dylid eu darllen ochr yn ochr â Rhannau 3 i 19 y Rheoliadau drafft uchod.

## Rheoliadau Gwasanaethau Rheoledig (Hysbysiadau Cosb) 2017

Mae'r Rheoliadau drafft hyn wedi cael eu datblygu o dan adran 52 y Ddeddf. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i gyflwyno hysbysiad cosb i berson yn hytrach na dwyn achos am drosedd, ond dim ond am y troseddau hynny a ragnodir yn y Rheoliadau drafft hyn. Mae'r Rheoliadau drafft yn rhoi'r manylion o ran sut y bydd y system hysbysiadau cosb yn gweithio.

Mae'r troseddau y gellir cyflwyno hysbysiadau cosb ar eu cyfer, a maint y gosb, wedi eu nodi yn yr atodlen 'troseddau penodedig' yng nghefn y Rheoliadau. Mae'r troseddau'n ymwneud â darpariaethau yn y Ddeddf megis gwneud datganiadau ffug (adran 47), methu â chyflwyno ffurflen flynyddol (adran 48) a methu â darparu gwybodaeth (adran 49). Maen nhw hefyd yn ymwneud â throseddau a grewyd o dan adran 45 a 46 y Ddeddf lle mae darparwr gwasanaeth cofrestredig neu unigolyn cyfrifol yn methu â chydymffurfio â gofynion penodol a restrir yn Rheoliadau Gwasanaethau Rheoledig (Darparwyr Gwasanaeth ac Unigolion Cyfrifol) 2017 (uchod).

Mae Adran 54 y Ddeddf yn cyfyngu maint y swm sydd i'w dalu o dan hysbysiad cosb i ddwywaith a hanner lefel 4 ar y raddfa safonol. Ar hyn o bryd mae lefel 4 ar y raddfa safonol yn £2,500. Ein dull gyda'r Rheoliadau drafft hyn yw seilio meintiau'r gosb a fyddai'n daladwy ar luosi gyda 'lefel 4 ar y raddfa safonol'.

## Diwygio Rheoliadau ar y Gofrestr

Mae Adran 80 yn delio â'r gofrestr o weithwyr cymdeithasol, gweithwyr gofal cymdeithasol rhagnodedig a gweithwyr cymdeithasol ymweld o Wledydd Ewropeaidd perthnasol, i'w chadw gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r rheoliadau a wnaed fel rhan o gam cyntaf gweithrediad y Ddeddf o dan adran 80(1)(b) yn rhagnodi'r categorïau o weithwyr gofal cymdeithasol, yn ogystal â'r rhai a enwir yn y Ddeddf, y mae'n rhaid i Gofal Cymdeithasol Cymru gadw cofrestr ohonynt. Yn benodol, y rhain yw rheolwyr gwasanaethau rheoledig, gweithwyr gofal preswyl plant a gweithwyr cymdeithasol sy'n fyfyrwyr. Mae'r rheoliadau hyn yn darparu ein bwriad polisi y bydd rhai sy'n ofynnol eisoes iddynt gofrestru'n parhau i fod yn gofrestredig.

Rydym yn awr yn ymgynghori ar ddiwygio'r rheoliadau hyn i ychwanegu gweithwyr gofal cartrefi i'r disgrifiadau o weithwyr uchod y mae'n rhaid i Gofal Cymdeithasol Cymru gadw cofrestr ohonynt. Drwy wneud hyn bydd gweithwyr gofal cartref yn gallu cofrestru o fis Ebrill 2018 mewn pryd i gwrdd â'r dyddiad cau ar gyfer cofrestru yn 2020. Mae'r diffiniad o weithiwr gofal cartref yn golygu'r rhai sy'n gweithio i ddarparwyr gofal cartref rheoledig.

# Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

| | |
|---|---|
| Eich enw: | |
| Sefydliad (lle bo'n berthnasol): | |
| E-bost / rhif ffôn: | |
| Eich cyfeiriad: | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **RHAN 2: EITHRIADAU** | | | |
| **C.1. Ydy'r eithriadau arfaethedig sydd wedi eu nodi ar gyfer y gwasanaethau rheoledig yn rhai priodol? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch yn y blwch isod os gwelwch yn dda.** | | | |
| Cytuno ☐ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| Eglurwch os gwelwch yn dda: | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **RHAN 3: GOFYNION CYFFREDINOL** | | | |
| **C.2. Ydy'r gofynion yn y rhan yma'n iawn ar gyfer pob math o wasanaeth a grŵp oed? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y blwch isod os gwelwch yn dda.** | | | |
| Cytuno ☐ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| **Rheoliadau:**<br>Eglurwch os gwelwch yn dda: | | | |

| |
|---|
| **Ydy'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaeth yn ddigonol gyda sut i gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan yma? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch yn y blwch isod os gwelwch yn dda.** |
| **Canllawiau:**<br>Eglurwch os gwelwch yn dda: |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **RHAN 4: GOFYNION AR DDARPARWYR GWASANAETH O RAN Y CAMAU SYDD I'W CYMRYD CYN CYTUNO I DDARPARU GOFAL A CHYMORTH** | | | |
| **C.3. Ydy'r gofynion yn y rhan yma'n iawn ar gyfer pob math o wasanaeth a grŵp oed? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y blwch isod os gwelwch yn dda.** | | | |
| Cytuno<br>☐ | Tueddu i gytuno<br>☐ | Tueddu i anghytuno<br>☐ | Anghytuno<br>☐ |
| **Rheoliadau:**<br>Eglurwch os gwelwch yn dda: | | | |
| **Ydy'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaeth yn ddigonol gyda sut i gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan yma? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch yn y blwch isod os gwelwch yn dda.** | | | |
| **Canllawiau:**<br>Eglurwch os gwelwch yn dda: | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **RHAN 5: GOFYNION AR DDARPARWYR GWASANAETH O RAN Y CAMAU SYDD I'W CYMRYD WRTH DDECHRAU DARPARU GOFAL A CHYMORTH** | | | |
| **C.4. Ydy'r gofynion yn y rhan yma'n iawn ar gyfer pob math o wasanaeth a grŵp oed? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y blwch isod os gwelwch yn dda.** | | | |
| Cytuno<br>☐ | Tueddu i gytuno<br>☐ | Tueddu i anghytuno<br>☐ | Anghytuno<br>☐ |
| **Rheoliadau:**<br>Eglurwch os gwelwch yn dda: | | | |

| |
|---|
| **Ydy’r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaeth yn ddigonol gyda sut i gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan yma? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu’n ddiangen, eglurwch yn y blwch isod os gwelwch yn dda.** |
| **Canllawiau:**<br>Eglurwch os gwelwch yn dda: |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **RHAN 6: GOFYNION AR DDARPARWYR GWASANAETH O RAN Y WYBODAETH SYDD I’W RHOI I UNIGOLION WRTH DDECHRAU DARPARU GOFAL A CHYMORTH** | | | |
| **C.5. Ydy’r gofynion yn y rhan yma’n iawn ar gyfer pob math o wasanaeth a grŵp oed? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu’n ddiangen, eglurwch hynny yn y blwch isod os gwelwch yn dda.** | | | |
| Cytuno<br>☐ | Tueddu i gytuno<br>☐ | Tueddu i anghytuno<br>☐ | Anghytuno<br>☐ |
| **Rheoliadau:**<br>Eglurwch os gwelwch yn dda: | | | |
| **Ydy’r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaeth yn ddigonol gyda sut i gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan yma? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu’n ddiangen, eglurwch yn y blwch isod os gwelwch yn dda.** | | | |
| **Canllawiau:**<br>Eglurwch os gwelwch yn dda: | | | |

| **RHAN 7: GOFYNION AR DDARPARWYR GWASANAETH O RAN SAFON Y GOFAL A'R CYMORTH SYDD I'W DDARPARU** | | | |
|---|---|---|---|
| **C.6. Ydy'r gofynion yn y rhan yma'n iawn ar gyfer pob math o wasanaeth a grŵp oed? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y blwch isod os gwelwch yn dda.** | | | |
| Cytuno ☐ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| **Rheoliadau:**<br>Eglurwch os gwelwch yn dda: | | | |
| **Ydy'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaeth yn ddigonol gyda sut i gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan yma? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch yn y blwch isod os gwelwch yn dda.** | | | |
| **Canllawiau:**<br>Eglurwch os gwelwch yn dda: | | | |

| **RHAN 8: GOFYNION AR DDARPARWYR GWASANAETH - DIOGELU** | | | |
|---|---|---|---|
| **C.7. Ydy'r gofynion yn y rhan yma'n iawn ar gyfer pob math o wasanaeth a grŵp oed? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y blwch isod os gwelwch yn dda.** | | | |
| Cytuno ☐ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| **Rheoliadau:**<br>Eglurwch os gwelwch yn dda: | | | |
| **Ydy'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaeth yn ddigonol gyda sut i gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan yma? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch yn y blwch isod os gwelwch yn dda.** | | | |
| **Canllawiau:**<br>Eglurwch os gwelwch yn dda: | | | |

| RHAN 9: GOFYNION AR DDARPARWYR GWASANAETH SYDD OND YN BERTHNASOL LLE DARPERIR LLETY | | | |
|---|---|---|---|
| **C.8. Ydy'r gofynion yn y rhan yma'n iawn ar gyfer pob math o wasanaeth a grŵp oed? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y blwch isod os gwelwch yn dda.** | | | |
| Cytuno ☐ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| **Rheoliadau:**<br>Eglurwch os gwelwch yn dda: | | | |
| **Ydy'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaeth yn ddigonol gyda sut i gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan yma? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch yn y blwch isod os gwelwch yn dda.** | | | |
| **Canllawiau:**<br>Eglurwch os gwelwch yn dda: | | | |

| RHAN 10: GOFYNION AR DDARPARWYR GWASANAETH O RAN STAFFIO | | | |
|---|---|---|---|
| **C.9. Ydy'r gofynion yn y rhan yma'n iawn ar gyfer pob math o wasanaeth a grŵp oed? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y blwch isod os gwelwch yn dda.** | | | |
| Cytuno ☐ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| **Rheoliadau:**<br>Eglurwch os gwelwch yn dda: | | | |
| **Ydy'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaeth yn ddigonol gyda sut i gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan yma? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch yn y blwch isod os gwelwch yn dda.** | | | |
| **Canllawiau:**<br>Eglurwch os gwelwch yn dda: | | | |

| RHAN 11: GOFYNION AR DDARPARWYR GWASANAETH O RAN ADEILADAU, CYFLEUSTERAU A CHYFARPAR | | | |
|---|---|---|---|
| **C.10. Ydy'r gofynion yn y rhan yma'n iawn ar gyfer pob math o wasanaeth a grŵp oed? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y blwch isod os gwelwch yn dda.** | | | |
| Cytuno<br>☐ | Tueddu i gytuno<br>☐ | Tueddu i anghytuno<br>☐ | Anghytuno<br>☐ |
| **Rheoliadau:**<br>Eglurwch os gwelwch yn dda: | | | |
| **Ydy'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaeth yn ddigonol gyda sut i gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan yma? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch yn y blwch isod os gwelwch yn dda.** | | | |
| **Canllawiau:**<br>Eglurwch os gwelwch yn dda: | | | |

| **RHAN 12: GOFYNION YCHWANEGOL AR DDARPARWYR GWASANAETH O RAN ADEILADAU – LLETY NEWYDD** | | | |
|---|---|---|---|
| **C.11. Ydy'r gofynion yn y rhan yma'n iawn ar gyfer pob math o wasanaeth a grŵp oed? A oes unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen?**<br><br>**Byddem yn croesawu pe baech yn rhoi sylw penodol i:**<br><br>• **faint o hyblygrwydd a fyddai'n ddymunol gyda chyfleusterau en-suite, ac a ddylent fod yn ofynnol ar gyfer pob ystafell neu ddim ond canran o ystafelloedd;**<br>• **a ddylid cael dull mwy penodol gyda chyfleusterau en-suite yn y stoc gartrefi sydd eisoes wedi cofrestru ac wedi eu meddiannu, ac os felly, sut i'w gyflwyno dros amser;**<br>• **a yw'r lleiafswm meintiau ystafell sydd mewn golwg yn ddigonol;**<br>• **a ddylid cymhwyso'r gofynion eraill yn Rhan 12 i bob gwasanaeth rheoledig sy'n darparu llety, nid dim ond i adeiladau ac estyniadau newydd.** | | | |
| Cytuno<br>☐ | Tueddu i gytuno<br>☐ | Tueddu i anghytuno<br>☐ | Anghytuno<br>☐ |
| **Rheoliadau:**<br>Eglurwch os gwelwch yn dda: | | | |
| **Ydy'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaeth yn ddigonol gyda sut i gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan yma? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch yn y blwch isod os gwelwch yn dda.** | | | |
| **Canllawiau:**<br>Eglurwch os gwelwch yn dda: | | | |

| **RHAN 13: GOFYNION AR DDARPARWYR GWASANAETH O RAN CYFLENWADAU, HYLENDID, IECHYD A DIOGELWCH A MEDDYGINIAETH** | | | |
|---|---|---|---|
| **C.12. Ydy’r gofynion yn y rhan yma’n iawn ar gyfer pob math o wasanaeth a grŵp oed? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu’n ddiangen, eglurwch hynny yn y blwch isod os gwelwch yn dda.** | | | |
| Cytuno<br>☐ | Tueddu i gytuno<br>☐ | Tueddu i anghytuno<br>☐ | Anghytuno<br>☐ |
| **Rheoliadau:**<br>Eglurwch os gwelwch yn dda: | | | |
| **Ydy’r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaeth yn ddigonol gyda sut i gydymffurfio â’r gofynion yn y rhan yma? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu’n ddiangen, eglurwch yn y blwch isod os gwelwch yn dda.** | | | |
| **Canllawiau:**<br>Eglurwch os gwelwch yn dda: | | | |

| **RHAN 14: GOFYNION ERAILL AR DDARPARWYR GWASANAETH** | | | |
|---|---|---|---|
| **C.13. Ydy’r gofynion yn y rhan yma’n iawn ar gyfer pob math o wasanaeth a grŵp oed? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu’n ddiangen, eglurwch hynny yn y blwch isod os gwelwch yn dda.** | | | |
| Cytuno<br>☐ | Tueddu i gytuno<br>☐ | Tueddu i anghytuno<br>☐ | Anghytuno<br>☐ |
| **Rheoliadau:**<br>Eglurwch os gwelwch yn dda: | | | |
| **Ydy’r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaeth yn ddigonol gyda sut i gydymffurfio â’r gofynion yn y rhan yma? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu’n ddiangen, eglurwch yn y blwch isod os gwelwch yn dda.** | | | |
| **Canllawiau:**<br>Eglurwch os gwelwch yn dda: | | | |

| **RHAN 15: GOFYNION AR UNIGOLION CYFRIFOL** | | | |
|---|---|---|---|
| **C.14. Ydy'r gofynion yn y rhan yma'n iawn ar gyfer pob math o wasanaeth a grŵp oed? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y blwch isod os gwelwch yn dda.** | | | |
| Cytuno<br>☐ | Tueddu i gytuno<br>☐ | Tueddu i anghytuno<br>☐ | Anghytuno<br>☐ |
| **Rheoliadau:**<br>Eglurwch os gwelwch yn dda: | | | |
| **Ydy'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaeth yn ddigonol gyda sut i gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan yma? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch yn y blwch isod os gwelwch yn dda.** | | | |
| **Canllawiau:**<br>Eglurwch os gwelwch yn dda: | | | |

| **RHAN 16: GOFYNION AR UNIGOLION CYFRIFOL** | | | |
|---|---|---|---|
| **C.15. Ydy'r gofynion yn y rhan yma'n iawn ar gyfer pob math o wasanaeth a grŵp oed? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y blwch isod os gwelwch yn dda.** | | | |
| Cytuno<br>☐ | Tueddu i gytuno<br>☐ | Tueddu i anghytuno<br>☐ | Anghytuno<br>☐ |
| **Rheoliadau:**<br>Eglurwch os gwelwch yn dda: | | | |
| **Ydy'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaeth ac unigolion cyfrifol yn ddigonol gyda sut i gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan yma? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch yn y blwch isod os gwelwch yn dda.** | | | |
| **Canllawiau:**<br>Eglurwch os gwelwch yn dda: | | | |

**RHAN 17: GOFYNION AR UNIGOLION CYFRIFOL I SICRHAU BOD Y GWASANAETH YN CYDYMFFURFIO**

**C.16. Ydy'r gofynion yn y rhan yma'n iawn ar gyfer pob math o wasanaeth a grŵp oed? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y blwch isod os gwelwch yn dda.**

| Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Rheoliadau:**
Eglurwch os gwelwch yn dda:

**Ydy'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaeth ac unigolion cyfrifol yn ddigonol gyda sut i gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan yma? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch yn y blwch isod os gwelwch yn dda.**

**Canllawiau:**
Eglurwch os gwelwch yn dda:

**RHAN 18: GOFYNION AR UNIGOLION CYFRIFOL I FONITRO, ADOLYGU A GWELLA ANSAWDD Y GWASANAETH RHEOLEDIG**

**C.17. Ydy'r gofynion yn y rhan yma'n iawn ar gyfer pob math o wasanaeth a grŵp oed? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch hynny yn y blwch isod os gwelwch yn dda.**

| Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Rheoliadau:**
Eglurwch os gwelwch yn dda:

| |
|---|
| **Ydy'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaeth ac unigolion cyfrifol yn ddigonol gyda sut i gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan yma? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch yn y blwch isod os gwelwch yn dda.** |
| **Canllawiau:**<br>Eglurwch os gwelwch yn dda: |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **RHAN 19: GOFYNION ERAILL AR UNIGOLION CYFRIFOL** | | | |
| **C.18.Ydy'r gofynion yn y rhan yma'n iawn ar gyfer pob math o wasanaeth a grŵp oed? A oes unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen?** | | | |
| Cytuno<br>☐ | Tueddu i gytuno<br>☐ | Tueddu i anghytuno<br>☐ | Anghytuno<br>☐ |
| **Rheoliadau:**<br>Eglurwch os gwelwch yn dda: | | | |
| **Ydy'r canllawiau statudol yn cynorthwyo darparwyr gwasanaeth ac unigolion cyfrifol yn ddigonol gyda sut i gydymffurfio â'r gofynion yn y rhan yma? Os credwch fod unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen, eglurwch yn y blwch isod os gwelwch yn dda.** | | | |
| **Canllawiau:**<br>Eglurwch os gwelwch yn dda: | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **RHAN 20: TROSEDDAU** | | | |
| **C.19. Ydy'r dull a gymerir gyda throseddau'n ddigonol a chymesur? Os nad yw, eglurwch isod os gwelwch yn dda.** | | | |
| Cytuno<br>☐ | Tueddu i gytuno<br>☐ | Tueddu i anghytuno<br>☐ | Anghytuno<br>☐ |
| Eglurwch os gwelwch yn dda: | | | |

| **RHAN 21: DARPARWYR GWASANAETH SYDD WEDI CAEL EU DIDDYMU ETC NEU SYDD WEDI MARW** | | | |
|---|---|---|---|
| **C.20. Ydy'r gofynion a roddir ar bersonau penodedig a chynrychiolwyr personol yn rhesymol? Os nad ydynt, eglurwch isod os gwelwch yn dda.** | | | |
| Cytuno ☐ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| Eglurwch os gwelwch yn dda: | | | |

| **RHAN 22: RHEOLIADAU O DAN ADRAN 21(5) – DYNODI UNIGOLYN CYFRIFOL GAN WEINIDOGION CYMRU** | | | |
|---|---|---|---|
| **C.21. Ydy'r amgylchiadau o dan y rhain y gallai unigolion cyfrifol gael eu dynodi gan Weinidogion Cymru, yn hytrach na chan y darparwr gwasanaeth, yn ddigonol a phriodol? Os nad ydynt, eglurwch isod os gwelwch yn dda.** | | | |
| Cytuno ☐ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| Eglurwch os gwelwch yn dda: | | | |

| **<u>Rheoliadau Gwasanaethau Rheoledig (Hysbysiadau Cosb) 2017</u>** | | | |
|---|---|---|---|
| **C.22. Ydy'r dull gyda hysbysiadau cosb yn ddigonol a chymesur? Ydy'r lefelau cosb a nodir yn y rheoliadau drafft yn briodol? Os nad ydynt, eglurwch isod os gwelwch yn dda.** | | | |
| Cytuno ☐ | Tueddu i gytuno ☐ | Tueddu i anghytuno ☐ | Anghytuno ☐ |
| Eglurwch os gwelwch yn dda: | | | |

**Cwestiynau Eraill**

Mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn deall a fydd y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon yn effeithio ar grwpiau gyda nodweddion a warchodir. Y nodweddion a warchodir yw: oed, anabledd, ail-bennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, priodas a phartneriaeth sifil, rhyw a thueddiad rhywiol.

**C23. Ydych chi'n meddwl y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effaith gadarnhaol ar grwpiau gyda nodweddion a warchodir? Os felly, pa rai a pham / pam ddim?**

**C24. Ydych chi'n meddwl y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effaith negyddol ar grwpiau gyda nodweddion a warchodir? Os felly, pa rai a pham / pam ddim?**

Hoffem wybod beth yw eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynigion hyn yn ei gael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar

i) cyfleoedd i bobl gael defnyddio'r Gymraeg; a
ii) trin yr iaith Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg.

**C25. Pa effeithiau ydych yn meddwl y byddent yn ei gael? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

**C26. Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut y credwch y gallai'r polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei newid er mwyn:**

**i) cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl gael defnyddio'r Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r iaith Saesneg, a**
**ii) cael dim effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl gael defnyddio'r Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r iaith Saesneg.**

| |
|---|
| **C27. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y gofod hwn i'w nodi os gwelwch yn dda.** |

| | |
|---|---|
| **Gallai ymatebion i ymgynghoriadau gael eu cyhoeddi - ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i ni gadw eich ymateb yn gyfrinachol, rhowch IE yn y blwch os gwelwch yn dda.** | |